Amodau Cludo

Telerau ac Amodau Cludo

**Mae'r Telerau ac Amodau Cludo hyn ("Telerau ac Amodau") yn ddogfen bwysig. Dyma'r amodau sy'n berthnasol pan fyddwch yn teithio ar ein bysiau ac yn defnyddio ein cynnyrch a'n gwasanaethau. Gallant newid o bryd i'w gilydd, a'r fersiwn ddiweddaraf fydd yn berthnasol.**

Mae New Adventure Travel yn gwerthfawrogi'ch cwsmeriaeth, a byddant yn gwneud eu gorau glas i sicrhau eich bod yn teithio'n ddiogel ac yn gyfforddus ar fws glân a dibynadwy. Mae'r polisi hwn yn cynnwys yr Amodau ar gyfer eich cludo chi ac maent yn berthnasol i unrhyw un sy'n teithio gyda ni. Mae ein Hamodau'n cyd-fynd â'r rheoliadau statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymddygiad teithwyr ac eiddo coll ac nid ydynt yn effeithio ar eich hawliau statudol. Gall Amodau amrywio ar wasanaethau penodol sy'n cael eu rhedeg ar ran sefydliadau eraill. Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd lleol i unrhyw amrywiadau. Bydd mynd i mewn i un o gerbydau neu safleoedd y cwmni yn cadarnhau eich bod yn derbyn yr amodau hyn.

## Amodau cyffredinol

Ein nod yw darparu gwasanaeth diogel, dibynadwy a phrydlon ond bydd adegau pan na fyddwn yn gallu gweithredu'r gwasanaeth fel y'i hysbysebwyd oherwydd ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth megis gwaith ffordd, dargyfeiriadau, tagfeydd traffig eithriadol, digwyddiadau mawr, tywydd eithafol ac amgylchiadau gweithredu eraill nas rhagwelwyd.

Lle bo modd, byddwn yn cymryd camau rhesymol i'ch hysbysu am unrhyw darfu ar wasanaethau. Os caiff unrhyw wasanaeth ei ganslo, ei oedi, ei ddargyfeirio neu ei derfynu, neu os na fydd y gwasanaeth ar gael i chi oherwydd bod y cerbyd yn llawn neu am unrhyw resymau eraill, ni fyddwn yn atebol am golledion, iawndal, cost nac anghyfleustra i chi.

Rydym yn cadw'r hawl, am resymau gweithredol neu resymau eraill, i newid, atal dros dro neu ddiddymu gwasanaethau, amodau neu brisiau ar unrhyw adeg.

Nid ydym yn gwarantu y bydd gwasanaethau'n cysylltu â'i gilydd oni bai ein bod ni'n hysbysebu sicrwydd o hynny.

Nid ydym mewn unrhyw ffordd yn eithrio nac yn cyfyngu ar ein hatebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol sy'n deillio o'n hesgeulustod ac nid yw hyn yn effeithio ar eich hawliau statudol fel defnyddiwr.

Bydd mynd i mewn i un o gerbydau neu safleoedd y cwmni yn cadarnhau eich bod yn derbyn yr amodau hyn.

## Ymddygiad teithwyr

Mae teithio ar fws yn golygu eich bod yn rhannu'r lle gyda phobl eraill. Felly, ni ddylech wneud unrhyw beth sy'n peryglu neu'n achosi annifyrrwch i rywun arall ar y bws. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i chi, neu ofyn i chi adael ein bysiau neu ein safleoedd ar unrhyw adeg, os oes gennym reswm i gredu bod eich ymddygiad yn peryglu diogelwch a chysur pobl eraill.

Wrth deithio gyda ni:

- Peidiwch â smygu – naill ai tybaco arferol neu unrhyw fath o e-sigaréts neu ddyfeisiau 'vape' personol
- Peidiwch ag ymddwyn mewn modd sarhaus na bygythiol na thramgwyddo cwsmeriaid neu staff eraill.
- Peidiwch â bwyta ac yfed eitemau sy'n achosi amgylchedd annymunol i gwsmeriaid eraill neu'n peri tramgwydd fel arall.
- Ni chewch yfed alcohol ar ein cerbydau, ac ni ddylech ddod â photeli, caniau neu gynwysyddion eraill alcohol sydd wedi'u hagor ar ein cerbydau.

  Yn fras: bydd eitemau gwaharddedig yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: bwyd a diodydd neu hylifau eraill mewn cynwysyddion agored neu a allai ollwng (h.y.; mae coffi â chaead yn dderbyniol, dyw coffi heb gaead ddim); poteli neu gynwysyddion eraill diodydd alcohol wedi'u hagor (h.y.; gallwch gario diodydd alcohol heb eu hagor ar yr amod eu bod yn parhau heb eu hagor gydol y daith - ni chewch gario diodydd alcohol wedi'u hagor); cyffuriau neu sylweddau anghyfreithlon eraill.

- Peidiwch â gadael sbwriel nac eitemau eraill nad ydych eu heisiau ar y bws.
- Ni ddylech wisgo dillad gwaith brwnt na chario unrhyw eitemau budr a allai staenio'r seddi ac ati
- Dylech ddilyn cyfarwyddiadau ein staff a gweithredu mewn modd sy'n rhoi sylw dyledus i ddiogelwch a chysur cwsmeriaid eraill a gweithwyr y cwmni, gan gynnwys peidio â sefyll ger allanfeydd argyfwng, mynedfa'r cerbyd, wrth ymyl y gyrrwr neu eistedd yn yr eiliau, ar risiau neu sefyll i fyny'r grisiau ar fws deulawr.
- Cofiwch roi gwybod ar unwaith i aelod o'r staff os cewch anaf wrth fynd ar/oddi ar y bws neu yn ystod y daith.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r staff ynghylch uchafswm y teithwyr sy'n sefyll sy'n cael teithio ar y bws. Mae pob un o'n cerbydau yn cynnwys arwyddion clir sy'n nodi'r niferoedd sy'n cael sefyll.
- Ac eithrio mewn argyfwng, peidiwch â siarad â'r gyrrwr pan fydd y bws yn symud, rhwystro golwg y gyrrwr na thynnu ei sylw mewn unrhyw ffordd arall.
- Dylech roi sylw dyladwy bob amser i anghenion ein cwsmeriaid oedrannus, ifanc ac anabl, a gadael seddau a gofodau sydd wedi'u neilltuo'n benodol i'r henoed a phobl anabl pan ofynnir i chi wneud hynny
- Peidiwch â dosbarthu taflenni, papurau nac erthyglau eraill, na chynnig unrhyw beth i'w werthu na chasglu ar gyfer elusen, heb ein caniatâd ysgrifenedig ni ymlaen llaw
- Peidiwch byth ag ymyrryd â chyfarpar sydd wedi'i osod ar y cerbyd
- Ni ddylech ddifrodi na difwyno unrhyw ran o'r cerbyd yn fwriadol

Efallai na fydd darpar gwsmeriaid sydd, ym marn y gyrrwr neu swyddog arall y cwmni, yn ymddangos yn debygol o ymddwyn yn anghymdeithasol, yn cael teithio.

Os ydych chi'n torri'r rheoliadau hyn ac unrhyw reoliadau statudol eraill, bydd rhaid i chi roi eich enw a'ch cyfeiriad i swyddog y cwmni neu byddwch yn cael eich ffrwyno neu'ch tynnu oddi ar y bws neu ein safle gan un o swyddogion y cwmni, heddwas neu swyddog cymorth cymunedol, ac ni fyddwch yn cael teithio ymhellach ac ni fyddwch yn cael unrhyw ad-daliad. Rydym hefyd yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw fesurau angenrheidiol eraill i sicrhau diogelwch a chysur ein cwsmeriaid a'n staff gan gynnwys eich gwahardd rhag teithio gyda ni, naill ai dros dro neu'n barhaol, yn dilyn achos o gamymddwyn.

Efallai y bydd offer CCTV sain wedi'i osod ar fysiau a safleoedd er mwyn cadw'n staff a'n cwsmeriaid yn fwy diogel. Bydd arwyddion priodol wedi'u gosod os oes CCTV sain ar waith, a bydd y fideo a'r recordiadau sain yn cael eu defnyddio'n unswydd i fonitro diogelwch, ansawdd y gwasanaeth, cefnogi achosion cyfreithiol troseddol a sifil ac ymchwilio i gwynion. Efallai y bydd delweddau ohonoch yn cael eu rhoi i'r heddlu, VOSA, y Comisiynydd Traffig neu unrhyw asiantaeth orfodi arall sy'n gwneud cais rhesymol amdanynt.

Er y byddwn yn gwneud popeth posib i reoli ymddygiad cwsmeriaid eraill, ni allwn fod yn gyfrifol am eu hymddygiad.

### Mynd ar/oddi ar y bws

Yn y rhan fwyaf o ardaloedd trefol, bydd bysiau fel arfer yn codi a gollwng teithwyr mewn safleoedd bysiau penodol. Mewn ardaloedd prysur, bydd rhai safleoedd yn cael eu neilltuo i wasanaethau penodol.

Peidiwch â cheisio neidio ar/oddi ar fws sy'n symud neu fws sy'n llonydd ar bwynt nad yw'n safle bysiau dynodedig, fel goleuadau traffig, gwaith ffordd ac ati.

Ni ddylech geisio neidio ar fws ar ôl iddo adael ei safle dynodedig mewn unrhyw orsaf fysiau.

Peidiwch â defnyddio'r allanfeydd argyfwng ar unrhyw gerbyd ac eithrio mewn argyfwng gwirioneddol.

Does dim safleoedd bysiau penodol mewn rhai ardaloedd, felly bydd bysiau yn stopio ar gais os yw'n ddiogel gwneud hynny. Dylech bob amser ddewis man sy'n ddigon pell o geir wedi parcio, cyffyrdd ac ati, a rhoi arwydd clir mewn da bryd i yrrwr y cerbyd wrth iddo agosáu.

Pan fyddwch chi am adael y bws, canwch y gloch unwaith mewn da bryd i dynnu sylw'r gyrrwr. Lle bo modd, dylech aros yn eich sedd ER EICH DIOGELWCH EICH HUN tan fydd y bws yn stopio.

### Cludo cadeiriau olwyn, pramiau bach a bygis

Rydym yn buddsoddi'n gyson i ddiweddaru ein fflyd o fysiau er mwyn gwella mynediad a lle i bobl anabl mewn cadeiriau olwyn, bygis anabl a theithwyr sy'n teithio gyda phlant mewn pramiau a bygis bach.

Os oes lle ar gael, ac yn ôl disgresiwn y gyrrwr, byddwn yn cario pramiau bach a bygis heb eu plygu o fewn yr ardal ddynodedig, cyn belled nad yw teithiwr mewn cadair olwyn angen y lle. Ni ddylai pramiau a bygis rwystro eiliau'r cerbyd ar unrhyw adeg.

Er hynny, rhaid i chi sicrhau bod y lle dynodedig i gadeiriau olwyn ar gael os bydd cwsmer mewn cadair olwyn neu fygi pobl anabl am deithio ar y bws.

Mae'n ofynnol i chi gydweithredu a chaniatáu defnydd priodol o'r lle dynodedig ar gyfer cadeiriau olwynion, drwy adael y lle hwn os oes ei angen ar gwsmer mewn cadair olwyn neu fygi pobl anabl, gan gynnwys symud pramiau bach, plygu unrhyw fygi a'i storio yn y man ar gyfer bagiau. Bydd peidio â chydymffurfio â'r gofyniad hwn yn golygu torri'r rheolau "Ymddygiad teithwyr" uchod a gallai arwain at gamau pellach fel y nodir yn yr adran honno.

### Cludo beiciau

Ni ddylid cario beiciau nad ydynt yn plygu ar gerbydau NAT Group. Mae modd cludo beiciau sy'n plygu, wedi'u cadw'n ddiogel yn yr ardal bagiau ddynodedig mewn bag neu flwch addas, ar bob bws.

Ni chaniateir cario sgwteri di-fodur ar lawr uchaf bws deulawr ond dylent gael eu storio'n ddiogel yn yr ardal bagiau ar y llawr gwaelod.

### Bagiau

Er diogelwch a chysur ein holl gwsmeriaid, rydym yn cyfyngu ar faint, math a nifer y bagiau neu eiddo eraill y gallwch eu cludo ar ein bysiau ac rydym yn cadw'r hawl i wrthod caniatâd i chi ddod ag unrhyw eitem ar ein bysiau.

Rydym yn cadw'r hawl, yn ôl disgresiwn y gyrrwr, i wrthod unrhyw becynnau mawr, anaddas neu letchwith neu nifer gormodol o fagiau llaw personol.

Eich cyfrifoldeb chi yw unrhyw eitemau sydd gennych. Efallai na chaniateir i chi deithio, er enghraifft, os yw'r lle sydd ar gael ar gyfer cludo bagiau eisoes yn llawn, neu os bydd eich bagiau neu eich eiddo, ym marn y gyrrwr, yn rhwystro eiliau a mynediad i allanfeydd argyfwng y bws.

Nid ydym yn atebol am unrhyw golled neu anghyfleustra i chi os na chaniateir i chi deithio o dan yr amgylchiadau hyn.

Rydym yn cadw'r hawl i ofyn i chi agor unrhyw eitem i'w harchwilio gan y gyrrwr neu swyddog arall y cwmni yn eich presenoldeb os ystyrir bod angen gwneud hynny am resymau diogelwch.

Dim ond os ydynt o faint rhesymol ac wedi'u pacio'n ddiogel y bydd eitemau bregus fel nwyddau electronig, setiau teledu cludadwy, cyfrifiaduron, radios ac ati yn cael eu cludo. Ni fyddwn yn gyfrifol am ddifrod i eitemau o'r fath, waeth sut ddigwyddodd y difrod hwnnw.

Dim ond paent yn y tuniau gwreiddiol sydd wedi'u selio'n gywir ac sy'n 5 litr neu lai y gellir ei gludo.

Ni ellir cario eitemau penodol o dan unrhyw amgylchiadau am resymau diogelwch. Mae'r rhain yn cynnwys cronaduron/batris, ffrwydron, bwledi, arfau a deunyddiau llosgadwy neu ddeunyddiau peryglus eraill fel petrol.

### Anifeiliaid

Caniateir i gŵn sy'n ymddwyn yn dda, neu anifeiliaid bach eraill na fydd yn berygl neu'n niwsans i gwsmeriaid eraill neu'n staff, deithio gyda chi ar ein bysiau yn ôl disgresiwn y gyrrwr a all benderfynu'n rhesymol ar y man gorau ar y bws i gludo'r anifail.

Lle bo'n briodol, rhaid i gŵn wisgo mwsel/safnrwym neu gael eu cadw ar dennyn yn unol â'r Ddeddf Cŵn Peryglus. Rhaid i anifeiliaid bach fod mewn cawell, bocs neu ar dennyn. Rhaid i unrhyw anifail sy'n cael ei gario gael ei gadw dan reolaeth ac ni chaiff eistedd ar y seddi.

Os byddwch yn dod ag anifail ar fws, chi fydd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod, colled neu anaf a achosir gan ei bresenoldeb ar y bws.

Os bydd teithiwr yn dweud wrth y gyrrwr bod ganddo alergedd i unrhyw anifail sy'n cael ei gario ar y bws, gellir gofyn i'r anifail a'r perchennog adael y cerbyd.

Mae cŵn tywys, cŵn clywed neu gŵn cymorth pobl anabl cofrestredig yn cael eu cludo yn rhad ac am ddim ar unrhyw adeg. Dylai cŵn cymorth wisgo harnais neu siaced adnabod wrth deithio.

### Eiddo coll

Byddwn yn gwneud ein gorau glas i ddod o hyd i unrhyw eiddo sy'n cael ei adael ar ein bysiau neu safleoedd a'i ddychwelyd i'r perchennog. Os na fydd rhywun yn hawlio'r eiddo coll o fewn mis, ni fydd perchennog yr eiddo wedyn a byddwn yn cael gwared arno yn y ffordd briodol.

Os dewch chi o hyd i eiddo coll ar fws, rhaid ei roi i'r gyrrwr. Byddwn yn cadw'r eiddo coll am fis, cyn belled nad yw'n ddarfodus neu'n annymunol. Os byddwch yn hawlio unrhyw eitem o eiddo coll, bydd angen i chi ein bodloni bod yr eitem yn perthyn i chi a rhoi'ch enw a'ch cyfeiriad i ni. Efallai y byddwn yn codi tâl gweinyddol arnoch.

Os yw'r eiddo coll yn ddarfodus a heb ei hawlio o fewn 48 awr o'i ganfod, byddwn yn cael gwared arno yn y ffordd briodol. Os yw'r eiddo darfodus yn annymunol neu'n achosi risg i iechyd cyn diwedd y cyfnod 48 awr, rydym yn cadw'r hawl i'w ddinistrio neu ei waredu ar unrhyw adeg.

Os yw'r eiddo coll mewn pecyn, bag neu gynhwysydd arall, efallai y byddwn yn ei agor a'i archwilio er mwyn dod o hyd i'r perchennog neu nodi natur a gwerth yr eiddo coll.

I hawlio eiddo coll, dylech gysylltu â New Adventure Travel. Mae'r manylion cyswllt yn www.natgroup.co.uk. O dan amgylchiadau arferol, bydd angen i chi gasglu'r eiddo coll o'r depo lle caiff ei storio (Caerdydd, Pontypridd neu Abertawe). Bydd angen i chi dalu cost postio a phecynnu o flaen llaw os byddwn yn cytuno i bostio'r eiddo yn ôl atoch. Mae ein trefniadau yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

### Prisiau a thocynnau

Wrth fynd ar fws, rhaid i chi naill ai:

Ddangos tocyn dilys rydych chi wedi'i brynu'n barod, tocyn teithio neu unrhyw ganiatâd arall i deithio.
Wrth deithio gyda cherdyn clyfar neu gerdyn magnetig, rhaid ei gyflwyno i'r peiriant sganio er mwyn gwirio ei ddilysrwydd a chofnodi'ch siwrnai.

Neu:

Dalu pris y daith rydych chi'n bwriadu ei gwneud i'r gyrrwr, p'un ai yw'n gofyn yn benodol i chi wneud hynny ai peidio.

Wrth dalu'r gyrrwr, dylech sicrhau eich bod yn cael tocyn newydd o'r peiriant tocynnau sy'n cyfateb i'r swm rydych wedi'i dalu ac sy'n ddilys ar gyfer pob cam o'ch taith.

Nid ydym yn derbyn taliadau siec.

Mae ein gyrwyr yn cael swm penodol o arian parod, felly mewn rhai amgylchiadau efallai na fyddant yn gallu rhoi'r newid cywir os nad oes gennych chi'r union swm ar gyfer eich taith. Os na fydd gan ein gyrwyr ddigon o newid i chi, byddant yn rhoi tocynnau newid sy'n cyfateb i'r swm sy'n ddyledus. Gellir defnyddio'r rhain i dalu am daith bws arall, neu eu cyfnewid am arian ar un o fysiau eraill New Adventure Travel, heb fod angen teithio. Nid oes rhaid defnyddio'r tocynnau newid erbyn dyddiad penodol.

Gellir defnyddio talebau a gwarantau penodol yn lle arian parod. Mae'r manylion priodol wedi'u nodi ar y daleb neu'r warant fel rheol.

Rhaid i chi gadw'ch tocyn, cerdyn neu ddogfennau perthnasol eraill i'w harchwilio gan swyddog y cwmni ar gais gydol eich taith. Os na allwch chi ddangos un o'r rhain, neu os yw'r tocyn wedi dod i ben neu'ch bod wedi ei newid mewn rhyw fodd, bydd rhaid i chi dalu pris y daith a all fod yn bris safonol yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Ni fyddwn yn ad-dalu'r pris hwn os byddwch yn dod o hyd i'r tocyn coll neu ddogfen arall wedyn. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod cludo unrhyw un sy'n cyflwyno tocyn a gafwyd trwy dwyll neu docyn wedi'i ddifrodi.

Pan fyddwch yn cwblhau'r daith rydych wedi talu amdani, neu os nad yw'ch cerdyn neu ddogfen berthnasol arall yn ddilys bellach, rhaid i chi adael y bws neu dalu am docyn newydd i'ch cyrchfan arfaethedig.

Eich cyfrifoldeb chi yw cael tocyn dilys ar gyfer pob cam o'r daith a chario unrhyw gerdyn adnabod cysylltiedig sydd ei angen ar gyfer prynu'r tocyn sydd gennych, fel cerdyn myfyriwr, prawf o'ch oedran, gyda chi wrth deithio.

Gallech gael eich erlyn os nad oes gennych docyn, cerdyn neu ddogfennau perthnasol eraill dilys.

Fel arfer, mae prisiau tocynnau unffordd neu ddwyffordd yn cael eu cyfrifo ar sail parthau tocynnau. Os byddwch yn dal y bws mewn lleoliad nad yw'n barth tocynnau, byddwch yn talu o'r parth blaenorol. Yn yr un modd, os byddwch yn dod oddi ar y bws mewn lleoliad nad yw'n barth tocynnau, byddwch yn talu hyd at y parth nesaf. Mewn rhai ardaloedd, efallai y bydd sawl safle bws yn cael eu grwpio gyda'i gilydd fel un cam parth tocynnau.

Ni chewch dorri eich siwrnai pan fyddwch yn teithio ar docyn unffordd neu ddwyffordd.

Dim ond ar y diwrnod rydych chi'n prynu'r tocyn y mae tocynnau dwyffordd yn ddilys, oni hysbysir yn glir fel arall, ac weithiau mae ganddynt gyfyngiadau amser o ran eu dilysrwydd. Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio amodau dilysrwydd tocyn dwyffordd. Dylech brynu tocyn dwyffordd gan yrrwr y bws ar gam cyntaf y daith a'i ddangos i'r gyrrwr ar y daith yn ôl i'w ddilysu. Maent yn ddilys ar gyfer un daith i bob cyfeiriad.

Bydd plant dan 16 oed a'r bobl hynny sydd, ym marn y gyrrwr, yn agored i niwed, mewn perygl neu mewn trallod, ac yn methu â thalu am docyn, yn cael eu cludo ym mhob achos cyn

belled â'u bod yn rhoi eu henw a'u cyfeiriad fel bod modd casglu'r arian sy'n ddyledus maes o law ynghyd ag unrhyw gostau gweinyddol rhesymol.

Mae prisiau plant yn berthnasol i blant pum mlwydd oed a hŷn, ond o dan 16 oed.

Ni chodir tâl am hyd at bedwar plentyn dan 5 oed sy'n teithio gyda theithiwr cyfrifol arall ar yr amod nad ydynt yn meddiannu sedd ar draul teithiwr sy'n talu am y daith, neu'n eistedd mewn bygi mewn man priodol ar y cerbyd. Byddwn yn codi tâl am blant ychwanegol fel petaent yn 5 oed neu hŷn.

Mae gennym ystod o docynnau teithio aml-siwrnai. Mae manylion llawn y tocynnau sydd ar gael, eu pris, eu dilysrwydd a'r telerau ac amodau ar gael yn [www.natgroup.co.uk](http://www.natgroup.co.uk).

Bydd penderfyniadau ar geisiadau am ad-daliadau tocynnau, teithio neu docynnau symudol yn cael eu gwneud yn ôl ein disgresiwn ni'n unig, heb gynsail, ac efallai y byddwn yn codi tâl gweinyddol rhesymol am unrhyw ad-daliad y cytunir arno.

Mae modd prynu tocynnau ar gyfer gwasanaethau ysgol 801-822 ar ein ap symudol, naill ai fesul 4 wythnos neu fesul tymor. Nid tocyn 4 wythnos yw'r dewis doethaf pan fydd gwyliau ysgol, felly rydym yn cynghori cwsmeriaid i brynu tocynnau dyddiol gan y gyrrwr. Ni fydd NAT Group yn cynnig ad-daliad, credyd na chod hyrwyddo ar gyfer y dyddiau a gollir oherwydd gwyliau, salwch, a diwrnodau HMS. Dim ond dull amgen o brynu tocynnau yw'r tocyn 4 wythnos. Mae cwsmeriaid sy'n prynu Tocyn Tymor yn gallu newid y tocynnau i gerdyn os ydynt yn dymuno - os felly, byddwn yn codi ffi gweinyddu o £10 am hyn.

Bydd penderfyniadau ar geisiadau am ad-daliadau tocynnau, teithiau neu gardiau clyfar yn cael eu gwneud yn ôl ein disgresiwn ni'n unig, heb gynsail, ac efallai y byddwn yn codi tâl gweinyddol rhesymol am unrhyw ad-daliad y cytunir arno.

### Cynlluniau teithio rhatach

Mae gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a holl awdurdodau lleol Lloegr gynlluniau teithio rhatach ar gyfer sawl categori gwahanol o deithwyr.

Cyfrifoldeb yr awdurdod sy'n cyflwyno tocynnau teithio yw telerau, amodau a rheolau'r cynlluniau hyn.

Wrth deithio ar gerbydau New Adventure Travels, rhaid i deithwyr â thocynnau rhatach gydymffurfio hefyd â phob agwedd ar yr amodau hyn.

### Cwynion

Rydym yn croesawu awgrymiadau a chwynion er mwyn ein helpu i wella ein gwasanaethau a gwneud yn iawn pan fydd pethau'n mynd o chwith. Hoffem i bobl gysylltu â ni yn hytrach na rhoi'r gorau i ddefnyddio ein gwasanaethau yn llwyr. Byddwn yn ymdrin â chwynion yn bwyllog ac yn ystyriol, a byth yn eu cymryd yn bersonol. Gwyddom fod cwsmeriaid am gael eu trin o ddifrif yn fwy na dim. Pan fyddwn wedi methu, byddwn yn cynnig ymddiheuriad didwyll a chyflym ac ymrwymiad diffuant i osgoi ailadrodd unrhyw gamgymeriad.

Mae manylion cyswllt New Adventure Travel ar gael ar bob bws, ym mhob amserlen, ar ein gwefan [www.natgroup.co.uk](http://www.natgroup.co.uk), ac mewn taflenni gwybodaeth lle bo modd.

Byddwn yn ymchwilio i bob awgrym a chwyn, boed ar bapur, drwy e-bost, yn bersonol neu dros y ffôn, ac yn ymdrin â'r materion dan sylw.

Byddwn yn ymateb cyn gynted â phosibl ac yn sicr o fewn saith diwrnod i dderbyn cwyn neu awgrym, hyd yn oed os mai dim er mwyn egluro pa ymchwiliad sydd angen ei gynnal a pha mor hir fydd hyn yn cymryd.

Pan fydd sylwadau neu gwynion yn ymwneud â materion y tu hwnt i'n rheolaeth ni, byddwn yn eu hanfon ymlaen i'r sefydliad perthnasol ac yn egluro ein bod wedi gwneud hyn.

Mae'r Bus Appeals Body yng Nghymru a Lloegr yn bwyllgor anstatudol sy'n cynnig adolygiad annibynnol o gwynion sy'n deillio o redeg gwasanaethau bysiau lleol a theithiau choets. Os ydych chi'n anfodlon gyda'n hymateb, byddwn bob amser yn rhoi manylion cyswllt y corff apeliadau i chi.

**Diogelu data**

O dan unrhyw amgylchiadau pan fyddwn yn casglu eich data personol wrth gyflawni trafodion manwerthu, arolwg cwsmeriaid neu ddiben arall, dim ond yn unol ag egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 y byddwn yn casglu a phrosesu'ch data chi.

**Diwygiadau**

Caiff yr amodau hyn eu diwygio unrhyw bryd, a bydd unrhyw ddiwygiad yn cael ei hysbysebu ar [www.natgroup.co.uk](http://www.natgroup.co.uk) a bydd taflenni diwygiedig ar gael mewn canolfannau gwybodaeth.

**Hysbysiad cyfreithiol**

Cyfreithiau Cymru a Lloegr fydd yn llywodraethu'r amodau hyn, a llysoedd Cymru a Lloegr fydd â'r awdurdodaeth.

Os bydd unrhyw ddarpariaeth yn yr amodau hyn yn annilys neu'n amhosib i'w gorfodi, ni fydd hyn yn effeithio ar ddilysrwydd y darpariaethau sy'n weddill a'r gallu i'w gorfodi.

Mae'r amodau hyn yn ffurfio'r cytundeb cyfan rhwng New Adventure Travel a'i gwsmeriaid. Nid oes hawl gan unrhyw un o'n gweithwyr i newid nac amrywio unrhyw un o ddarpariaethau'r amodau hyn.

**Diffiniadau a disgrifiad**

Mae New Adventure Travel (NAT Group) yn cynnig tocynnau a chardiau ar werth i'w gwsmeriaid yn unol â'r telerau a'r amodau isod.
Mae'r telerau ac amodau canlynol yn rheoli pob achos o brynu tocynnau New Adventure Travel.

At ddibenion y telerau a'r amodau hyn:
Mae 'rydym / ni / ein' yn golygu New Adventure Travel.
Mae 'rydych / chi / eich' yn golygu chi, y cwsmer sy'n dymuno prynu tocyn gennym ni.
Mae 'ffôn symudol' neu 'ddyfais' yn golygu ffôn symudol neu ffôn clyfar (fel iPhone neu Android) neu unrhyw ddyfais llaw arall (megis iPad neu dabled).
Ystyr 'Cerdyn / Tocyn' yw tocyn neu gerdyn y gallwch ei brynu naill ai fel cerdyn clyfar neu docyn papur

**Sail y cytundeb**

Mae'r wefan hon neu'r cyfleuster tocynnau symudol hwn yn cael ei gynnig fel gwasanaeth i

chi gennym ni. Drwy ddefnyddio'r wefan hon neu'r cyfleuster tocynnau symudol hwn rydych yn cytuno y bydd y telerau a’r amodau hyn yn rheoli'r berthynas rhyngom ni a chi. Dylech ddarllen y telerau a’r amodau hyn yn ofalus.

Mae'r telerau hyn yn berthnasol i'ch cais ac unrhyw docyn a cherdyn a brynir. Byddwn yn trin pob archeb am docynnau fel cynnig gennych chi i brynu'r tocynnau yn unol â'r telerau hyn.

Gall New Adventure Travel newid y telerau hyn o bryd i'w gilydd.

**Cynnyrch**
Mae New Adventure Travel yn cynnig nifer dethol o docynnau a chardiau.

Ni allwn warantu y bydd pob math o docyn rydych chi am ei archebu ar gael i chi drwy wefan NAT Group.

**Tocynnau**
Mae tocynnau a chardiau sy'n cael eu gwerthu yn ddilys i deithio ar wasanaethau bysiau New Adventure Travel mewn parthau ac ardaloedd fel y nodir gennym pan fyddwch yn prynu'r tocyn YN UNIG.

Mae tocynnau a chardiau yn parhau i fod yn eiddo i ni, a rhaid eu dangos unrhyw bryd yn ystod y daith pan fydd un o'n swyddogion yn gofyn i chi wneud hynny. Rhaid dangos y tocynnau i'r gyrrwr wrth fynd ar y bws. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych docyn dilys os ydych yn dymuno teithio. Rhaid i deithwyr sy'n methu â dangos tocyn dilys cyfredol dalu'r pris priodol wrth fynd ar fws, ac ni roddir ad-daliadau os nad yw teithwyr yn dangos tocyn dilys

Rydym yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw docyn neu gerdyn os oes gennym reswm digonol i gredu ei fod annilys, wedi dod i ben, wedi'i ganslo, neu os yw'r tocyn wedi'i ddifrodi, ei ddifwyno neu ei sarnu fel arall. Bydd tocynnau a chardiau dros eu dyddiad ac annilys yn cael eu gwrthod wrth ddilysu.

**Pris a thaliad**

Mae'r pris a delir gennych yn ddilys am hyd y daith, ac ni fydd unrhyw newid dilynol mewn prisiau yn ystod y cyfnod hwn yn effeithio ar docyn sydd eisoes wedi'i brynu.
Mae’r prisiau a ddyfynnir ar y wefan hon mewn punnoedd sterling. Os byddwch yn dewis defnyddio arian cyfred arall i dalu am eich tocynnau, efallai y bydd rhaid i chi dalu ffi bellach mewn perthynas â'r gyfradd gyfnewid.

Nid ydym yn storio unrhyw fanylion cerdyn credyd neu ddebyd (gweler yr adran Diogelwch Data isod).

**Polisi canslo ac ad-dalu**

Mae NAT Group, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, yn cadw'r hawl i newid llwybrau neu amserlenni ei wasanaethau, a chanslo neu dynnu llwybrau yn ôl am unrhyw reswm gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, reswm hyfywedd masnachol, technegol, iechyd a diogelwch a/neu weithredol. Pe byddem yn dileu gwasanaeth neu'n newid amserlen/llwybr ac nad yw’r gwasanaeth yn addas/ar gael mwyach, bydd New Adventure Travel yn cynnig ad-daliadau ar docynnau am hyd at 30 diwrnod wedi'r newid/diddymiad.

I ofyn am ad-daliad am wasanaeth sydd wedi'i ddileu neu ei newid dylech e-bostio info@natgroup.co.uk Unwaith y bydd cais wedi'i wneud, postiwch eich tocyn neu gerdyn a brynwyd i New Adventure Travel, Coaster Place, Caerdydd, CF10 4XZ. Unwaith inni dderbyn eich tocyn, byddwn yn prosesu'ch ad-daliad ynghyd ag unrhyw daliadau gweinyddol o fewn 14 diwrnod gwaith. Bydd ad-daliadau'n cael eu gwneud i'r cerdyn credyd neu ddebyd a ddefnyddiwyd i brynu'r tocyn yn y lle cyntaf - os nad ydynt ar gael, byddwn yn talu gyda siec. Nid yw NAT Group yn derbyn cyfrifoldeb am golli eich nwyddau a ddychwelwyd na'ch costau postio.

Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd gwerth llawn nac unrhyw ran o werth y tocyn a brynwyd yn cael ei ad-dalu ac ni fydd unrhyw iawndal yn daladwy os na fydd unrhyw ran o'r gwasanaethau ar gael, neu os caiff unrhyw rai neu ran o'r gwasanaethau eu dileu/canslo neu os caiff amserlenni/llwybrau eu newid, mwy na 30 diwrnod ar ôl dileu/newid y gwasanaeth hwnnw.

Nid yw ad-daliadau ar gael dan unrhyw amgylchiadau. Nid yw hyn yn effeithio ar hawliau statudol defnyddwyr.

**Ymwadiad**
Rydym yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y data ar y wefan hon yn gywir, a chywiro unrhyw wallau neu hepgoriadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib ar ôl cael gwybod amdanynt.
Efallai na fydd gwefan NAT Group yn gydnaws â'ch dyfais, eich porwr neu ffurfweddiad eich cyfrifiadur ac nid ydym yn gwarantu y bydd felly. Nid ydym yn gwarantu y cewch ddefnydd cwbl ddi-dor ac amserol o'n gwefan, heb unrhyw wallau, ac ni fyddwn yn gyfrifol os na allwn ddarparu gwasanaeth gwefan am ba reswm bynnag.

**Atebolrwydd**
Byddwn yn gyfrifol os bydd rhywbeth a wnawn yn achosi marwolaeth neu anaf personol. Byddwn hefyd yn gyfrifol am ddifrod i'ch eiddo os mai ein bai ni yw hynny. Ar wahân i dderbyn y cyfrifoldebau a ddisgrifiwyd uchod, ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw golledion a gewch chi boed trwy gontract, camwedd neu fel arall yn sgil ein gwefan neu gysylltiedig â'n gwefan, analluÂ i gael mynediad i'n gwefan neu unrhyw wefannau sy'n gysylltiedig â'n gwefan.

**Data**
Dim ond y wybodaeth a gasglwn amdanoch yn gyfreithlon a ddefnyddir gan NAT Group, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb CE) 2003 ("cyfreithiau diogelu data"). Rydych yn cadarnhau mai dim ond gwybodaeth amdanoch chi eich hun y byddwch yn ei rhoi a bod y wybodaeth honno'n wir. Bydd y manylion rydych chi'n eu darparu amdanoch chi eich hun ac unrhyw wybodaeth arall sy'n golygu bod modd eich adnabod yn cael eu defnyddio at ddibenion gweithredol yn unig, er enghraifft, er mwyn cysylltu â chi i gael adborth am y cyfleuster hwn. Ni chaiff y manylion eu trosglwyddo i unrhyw bartïon eraill.

**Manylion cyswllt**
Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid NAT Group trwy e-bostio info@natgroup.co.uk

**Hawliau statudol**
Fel defnyddiwr, mae gennych hawliau statudol penodol mewn perthynas â datganiadau a

wnaed yn gyhoeddus gennym ni neu gan ein cynrychiolwyr, trwsio neu ddychwelyd a chyfnewid nwyddau diffygiol neu a gam-ddisgrifiwyd, a pherfformiad gwasanaethau, yn ogystal â hawliadau mewn perthynas â cholledion a achoswyd gan ein hesgeulustod neu ein methiant i gyflawni ein rhwymedigaethau. Nid oes unrhyw beth yn y telerau ac amodau hyn yn effeithio ar yr hawliau statudol hynny.

Mae gennych hawliau statudol penodol o dan Reoliadau Masnach Electronig (Cyfarwyddeb CE) 2002 hefyd, gan ein bod ni'n hysbysebu a gwerthu gwasanaethau ar-lein. Os nad ydym yn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, mae gennych rwymedïau penodol. Nid yw'r telerau ac amodau hyn yn effeithio ar eich rhwymedïau o dan y Rheoliadau hynny. Bwriedir i'r telerau a'r amodau hyn fod yn gyson â Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr (Gwerthu o Bell) 2000 fel y'u diwygiwyd, ac ni fwriedir i unrhyw beth sydd ynddynt osod unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth arnoch yn ychwanegol at y rhai a bennir yn y Rheoliadau hynny. Os hoffech gopi o'r Rheoliadau hyn, cysylltwch â'r Swyddfa Masnachu Teg. I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau statudol, cysylltwch ag Adran Safonau Masnach eich awdurdod lleol neu Cyngor ar Bopeth.

Os ydych chi'n anfodlon â'r ymateb gewch chi i'ch sylwadau am ein gwasanaeth, cewch godi'r mater gyda Bus Users UK, Blwch Post 1045, Caerdydd, CF11 1JE. Mae Bus Users UK yn bartner y Bus Appeals Body, sefydliad anstatudol sy'n cynnig adolygiad annibynnol o gwynion sy'n deillio o redeg gwasanaethau bysiau lleol a theithiau coets.